Datganiad Newyddion

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

7 Mehefin 2010

Ysgolion yn elwa o ddatblygiad proffesiynol athrawon

Mae cyllid gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) i helpu athrawon ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth, yn ôl Estyn, sef arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae prosiectau datblygiad proffesiynol athrawon wedi helpu gwella cyflawniadau disgyblion ac wedi cyfrannu at ddatblygiad ehangach ysgolion.

Mae adroddiad Estyn yn arfarnu effaith prosiectau datblygiad proffesiynol wedi'u hariannu gan CyngACC ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gall athrawon wneud cais am symiau gwahanol o gyllid, o £650 ar gyfer gweithgarwch datblygiad proffesiynol o'u dewis, i £5,250 ar gyfer cyfnod sabothol i athro/athrawes. Mae gan y rhan fwyaf o weithgareddau datblygu gysylltiad agos â gwaith bob dydd athrawon, gan gwmpasu meysydd fel y blynyddoedd cynnar, TGCh, medrau rheoli, gwyddoniaeth, anghenion addysgol arbennig, medrau meddwl a methodoleg addysgu a dysgu.

Meddai Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Mae'r canfyddiadau hyn yn galonogol iawn o ran cefnogi gwelliant mewn safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n dangos yn glir yr effaith gadarnhaol y gall datblygiad proffesiynol athrawon ei chael. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus yn dda. Serch hynny, mae angen i athrawon dreulio mwy o amser yn cynllunio sut byddant yn mesur effaith y prosiectau hyn, gan gynnwys gofyn i gydweithwyr a disgyblion am adborth, fel bod modd cysylltu gwaith yn gliriach â gwella cyflawniad disgyblion."*

Canfu arolygwyr nad yw llawer o athrawon yn monitro eu datblygiad proffesiynol eu hunain yn effeithiol pan fyddant yn cyrraedd cerrig milltir penodol, ac mae hyn yn eu gadael yn agored i beidio ag amgyffred y camau mwy cynnil yn nysgu disgyblion. O ganlyniad, nid yw athrawon yn darganfod cymaint ag y gallent am ddysgu'r disgyblion eu hunain nac am eu galluoedd eu hunain.

Hefyd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod prosiectau datblygiad proffesiynol athrawon yn cael yr effaith fwyaf pan fydd y pennaeth neu'r uwch reolwyr yn rhoi gwerth ar ddatblygiad proffesiynol eu staff. Yn aml, bydd athrawon yn adfywio lefelau eu brwdfrydedd tuag at addysgu drwy ddatblygiad proffesiynol ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad ac effeithiolrwydd ysgol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaeth achos o Ysgol Uwchradd Aberdâr, lle gwnaeth athrawon ddefnyddio cyllid y CyngACC yn llwyddiannus i gefnogi ffyrdd o ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion. Mynychodd athrawon gynhadledd ar ddysgu arloesol, gan rannu eu medrau a'u gwybodaeth newydd gyda chydweithwyr eraill pan ddychwelont i'r ysgol. O ganlyniad, cyflwynwyd rhaglen beilot ar gyfer Blwyddyn 7 yn canolbwyntio ar wella medrau disgyblion mewn siarad a gwrando, cydweithio a datrys problemau. Ers datblygu a rhoi'r dull hwn ar waith, mae tystiolaeth wedi dangos cynnydd mesuradwy yn hyder disgyblion a'u mwynhad o wersi, gyda chynnydd cyfatebol mewn canlyniadau TGAU.

Dim ond un argymhelliad a wnaed gan arolygwyr o ganlyniad i'w canfyddiadau: dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu datblygiad deunyddiau sy'n helpu athrawon i arfarnu effaith eu datblygiad proffesiynol parhaus ar eu haddysgu ac ar godi safonau cyflawniad disgyblion yn well.

-DIWEDD-

I gael mwy o wybodaeth neu gyfweliad, cysylltwch â:

Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Ynglŷn â'r adroddiad

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Sut mae athrawon yn arfarnu effaith prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus a ariennir gan CyngACC' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/cy_thematicreports.asp

  Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o sampl o brosiectau datblygiad proffesiynol parhaus athrawon ar draws ystod o gategorïau cyllid rhwng Hydref a Rhagfyr 2009. Fe wnaeth arolygwyr adolygu ffurflenni cais ac adroddiadau athrawon a gwnaethant gyfweld â phenaethiaid, staff uwch ac athrawon a wnaeth dderbyn cyllid yn 2007-08, 2008-09 a 2009-10 mewn amrywiaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o:
  - Ysgol Uwchradd Aberdâr, Rhondda Cynon Taf
  - Ysgol Gynradd Greenway, Caerdydd
  - Ysgol Uwchradd Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru. Ein nod yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gynnig gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru drwy arbenigedd ein staff.

Rydym yn annibynnol ar, ond cawn ein hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk